

Trosolwg

Mae'r uned hon yn ymwneud â thynnu blew o fannau personol gan ddefnyddio technegau cwyro.

Bydd angen i chi allu ymgynghori â'r cleient, paratoi ar gyfer y gwasanaeth cwyro a chynhyrchu cynllun triniaeth. Bydd angen i chi hefyd roi cyngor ynghylch y driniaeth i'r cleient, yn arbennig ynglŷn ag osgoi rhai gweithgareddau a chyngor gofal cartref.

I gyflawni'r uned hon, bydd angen i chi gynnal trefnau iechyd, diogelwch a hylendid effeithiol a defnyddio dull proffesiynol a gweddus gydol y gwasanaeth hwn.

Cynnwys yr uned:

- 1 Cynnal dulliau diogel ac effeithiol o weithio wrth ddarparu gwasanaethau cwyro personol i ddynion
- 2 Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer gwasanaethau cwyro â chleientiaid
- 3 Tynnu blew diangen
- 4 Rhoi cyngor ôl-ofal

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Cynnal dulliau diogel ac effeithiol o weithio wrth gwyro

- P1 paratoi'r amgylchedd gwaith yn unol â'r gofynion cyfreithiol, hylendid a gofynion Cod Ymarfer y diwydiant ar gyfer Cwyro
- P2 sicrhau bod eich ymddangosiad personol yn unol â Chod Ymarfer derbyniol y diwydiant ar gyfer Cwyro a gofynion y sefydliad
- P3 gwisgo cyfarpar gwarchod personol priodol ar gyfer y gwaith sy'n cydymffurfio â Chod Ymarfer y diwydiant ar gyfer Cwyro
- P4 paratoi'r cleient a darparu cyfarpar gwarchod priodol i gydymffurfio â Chod Ymarfer y diwydiant ar gyfer Cwyro
- P5 sicrhau fod cyflwr yr amgylchedd yn addas ar gyfer y cleient a'r driniaeth
- P6 sicrhau eich bod yn glanhau'r holl offer a'r cyfarpar gan ddefnyddio'r dulliau cywir
- P7 diheintio eich dwylo'n effeithiol cyn y gwasanaethau cwyro
- P8 cynnal arferion hylendid a diogelwch derbyniol y diwydiant gydol y driniaeth
- P9 dewis y cyfarpar, defnyddiau, taenwyr a **chynhyrchion** addas ar gyfer y **gwasanaeth cwyro** a'u gosod yn gywir
- P10 sicrhau fod eich osgo a'ch lleoliad eich hun wrth weithio yn lleihau blinder a'r risg o anaf
- P11 cynnal gwedduster a phreifatrwydd y cleient bob amser
- P12 gwastraffu cyn lleied o gynnyrch ag sy'n bosibl wrth ei roi ymlaen
- P13 cael gwared â gwastraff peryglus yn gywir yn unol â gofynion yr awdurdod lleol
- P14 sicrhau fod y driniaeth yn gost effeithiol a'i bod yn cael ei gwneud o fewn amser sy'n fasnachol ymarferol
- P15 sicrhau fod cofnodion y cleient wedi eu diweddarau, eu bod yn gywir, yn rhwydd i'w darllen ac wedi eu harwyddo gan y cleient a'r ymarferydd
- P16 gadael yr ardal driniaeth a'r cyfarpar mewn cyflwr priodol ar gyfer rhagor o **wasanaethau cwyro**

Ymgynghori, paratoi a chynllunio ar gyfer gwasanaethau cwyro â chleientiaid

Rhaid i chi allu:

- P17 defnyddio **technegau ymgynghori** priodol mewn modd cwrtais a phroffesiynol er mwyn pennu triniaeth y cleient
- P18 sicrhau eich bod yn cael cydsyniad gwybodus wedi'i arwyddo gan riant neu warcheidwad ar gyfer plant dan oed cyn unrhyw wasanaeth cwyro personol
- P19 sicrhau fod riant neu warcheidwad yn bresennol gydol y gwasanaeth cwyro personol ar gyfer plant dan oed
- P20 cael cydsyniad gwybodus, ysgrifenedig wedi'i arwyddo gan y cleient cyn cynnal y driniaeth
- P21** gofyn cwestiynau priodol i'ch cleient er mwyn nodi a oes ganddynt

- unrhyw wrthrybuddion i'r **gwasanaeth cwyro**
- P22 annog cleientiaid i ofyn cwestiynau er mwyn gwneud unrhyw bwyntiau'n gliriach
- P23 cofnodi atebion eich cleient i'r cwestiynau'n gywir
- P24 cynnal prawf darn bychan yn gywir ar ran addas o'r croen yn y forddwyd gan ddilyn Cod Ymarfer cyfredol y diwydiant ar gyfer Cwyro
- P25 hysbysu'r cleient mewn modd ystyriol os oes adwaith anffafriol i'r prawf ac na ellir cynnal y driniaeth
- P26 cymryd y **camau angenrheidiol** mewn ymateb i unrhyw wrthrybuddion a nodwyd ac addaswyd y cleient ar gyfer y **gwasanaeth cwyro**
- P27 esbonio'r gwrthefeithiau posibl yn eglur wrth y cleient cyn cytuno i'r **gwasanaeth cwyro**
- P28 sicrhau nad ydych yn cyfeirio at gyflwr meddygol penodol wrth roi cyngor i gleient ac nad ydych yn achosi unrhyw fraw a phryder diangen
- P29 cytuno ar y **gwasanaethau cwyro** a'r canlyniadau sy'n dderbyniol i'r cleient ac yn diwallu ei anghenion
- P30 gwneud yn siŵr fod y broses o **baratoi'r cleient** yn unol â'r cynllun triniaeth y
- P31 cytunwyd arno a Chod Ymarfer y diwydiant ar gyfer Cwyro

Tynnu blew diangen

Rhaid i chi allu:

- P32 defnyddio'r **cynhyrchion** cywir **cyn rhoi'r cŵyr ymlaen** gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
- P33 sicrhau fod y cŵyr ar y tymheredd cywir ar gyfer y cleient a'r man sydd i'w drin yn union cyn y **gwasanaeth cwyro** a fwriedir
- P34 sefydlu patrwm tyfiant y blew cyn rhoi'r cynnyrch ymlaen
- P35 defnyddio'r dulliau cywir o roi'r cynnyrch ymlaen a chan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
- P36 rhoi'r cynnyrch ymlaen yn y man sydd i'w drin a'i dynnu yn unol â gofynion y dull tynnu blew a phatrwm tyfiant y blew
- P37 ymddwyn yn broffesiynol gydol y **gwasanaeth cwyro** yn unol â Chod Ymarfer y diwydiant ar gyfer Cwyro
- P38 cael gwared â gwastraff peryglus yn gywir o'ch ardal waith gydol y **gwasanaeth cwyro**
- P39 rhoi cyfarwyddiadau clir i'r cleient ynghylch sut a phryd i gynnal eu croen yn ystod y **gwasanaeth cwyro**
- P40 gwneud yn siŵr fod eich **technegau gweithio**'n creu cyn lleied o anghysur i'r cleient ag sy'n bosibl
- P41 cadw llygad ar les y cleient gydol y **gwasanaeth cwyro** a thawelu meddwl yn ôl yr angen
- P42 rhoi'r gorau i'r **gwasanaeth cwyro** a rhoi cyngor ac argymhellion ar gyfer unrhyw driniaeth berthnasol arall lle bo gwrthefeithiau'n digwydd
- P43 gwneud yn siŵr nad oes unrhyw gynnyrch na blew ar ôl yn y man a driniwyd ar y cleient a'ch bod yn rhoi cynnyrch lliniaru addas arno

SKABTB27W

Darparu gwasanaethau cwyro personol i ddynion

P44 gwneud yn siŵr fod y canlyniad gorffenedig yn plesio'r cleient ac yn unol â'r cynllun triniaeth y cytunwyd arno

Rhoi cyngor ôl-ofal

Rhaid i chi allu:

P45 rhoi cyngor ac argymhellion yn gywir ac yn adeiladol

P46 rhoi cyngor priodol i'ch cleientiaid sy'n benodol i'w hanghenion unigol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Gofynion y sefydliad a'r gofynion cyfreithiol

- K1 eich cyfrifoldebau dan y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol, yn lleol a chenedlaethol
- K2 pwysigrwydd peidio â gwahaniaethu rhwng cleientiaid ag afiechydon neu anabledau, a pham (e.e. Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd)
- K3 yr oed y dosberthir unigolyn yn blentyn dan oed a sut y mae hyn yn gwahaniaethu'n genedlaethol
- K4 pwysigrwydd edrych ar y canllawiau yswiriant cyfredol ar gyfer darparu gwasanaeth cwyro personol
- K5 pwysigrwydd dilyn y canllawiau cyfredol mewn perthynas ag unrhyw gyfyngiadau oed ar gyfer y gwasanaeth cwyro personol
- K6 pam na ddylid trin plant dan oed oni bai bod hynny â chydsyniad gwybodus wedi'i arwyddo gan riant neu warcheidwad
- K7 pam ei bod yn bwysig cael rhiant neu warcheidwad yn bresennol wrth drin plant dan oed
- K8 cynnwys y Cod Ymarfer cyfredol ar gyfer Gwasanaethau Cwyro a phwysigrwydd dilyn ei ddarpariaethau
- K9 gofynion yr awdurdod lleol a gofynion y sefydliad ar gyfer cael gwared â gwastraff
- K10 pam ei bod yn bwysig cynnal safonau hylendid, ac egwyddorion osgoi traws-heintiad
- K11 pwysigrwydd storio cofnodion cleientiaid yn gywir mewn perthynas â'r Ddeddf Gwarchod Data
- K12 amseroedd gwasanaeth eich sefydliad ar gyfer triniaethau cwyro a phwysigrwydd cwblhau gwasanaethau mewn amser sy'n fasnachol ymarferol
- K13 strwythurau prisio'r sefydliad ar gyfer gwasanaethau cwyro personol
- K14 gofynion eich sefydliad ar gyfer paratoi cleientiaid
- K15 pwysigrwydd cadw cofnodion o driniaethau a chael llofnodion y cleient a'r ymarferydd, a'r rhesymau am hynny
- K16 sut i lenwi'r cofnodion cleientiaid a ddefnyddir yn eich sefydliad

Sut i weithio'n ddiogel ac effeithiol wrth ddarparu triniaethau cwyro

Mae angen i chi wybod a deall:

- K17 y math o gyfarpar gwarchod personol ddylai fod ar gael a'i ddefnyddio gennych (e.e. di-bowdwr, menyg nitril neu finyl)
- K18 pam ei bod yn bwysig defnyddio cyfarpar gwarchod personol
- K19 pwysigrwydd darparu cyfarpar gwarchod personol priodol ar gyfer y cleient
- K20 beth yw dermatitis cyffwrdd a sut i osgoi ei ddatblygu wrth gynnal triniaethau cwyro
- K21 pwysigrwydd holi cleientiaid er mwyn sefydlu a oes unrhyw

- wrthrybuddion i driniaethau cwyro
- K22 pam ei bod yn bwysig cofnodi ymateb cleientiaid i'r cwestiynau
 - K23 arwyddocâd cyfreithiol holi cleientiaid a chofnodi atebion cleientiaid
 - K24 sut i baratoi a defnyddio'r cyfarpar a'r defnyddiau ar gyfer y gwaith
 - K25 dulliau diheintio a sterileiddio cyfarpar
 - K26 sut i gynnal a chadw cyfarpar a defnyddiau mewn cyflwr glân a glanwaith
 - K27 sut i baratoi eich hun ar gyfer cynnal triniaethau cwyro
 - K28 pwysigrwydd diheintio dwylo a'r rhesymau am hynny, a sut i wneud hyn yn effeithiol
 - K29 sut i osod yr ardal waith ar gyfer triniaethau cwyro
 - K30 yr amgylchiadau amgylcheddol angenrheidiol ar gyfer gwasanaethau cwyro (gan gynnwys goleuo, gwresogi, awyru a chyfforddusrwydd cyffredinol) a pham fod y rhain yn bwysig
 - K31 sut i archwilio cyfarpar a ddefnyddir ar gyfer triniaethau cwyro
 - K32 pam ei bod yn bwysig cynnal safonau hylendid, ac egwyddorion osgoi traws-heintiad
 - K33 sut i leihau gwastraff cyffredinol a pheryglus sy'n deillio o driniaethau a chael gwared ohono
 - K34 sut i osod cyfarpar a defnyddiau ar gyfer triniaethau cwyro yn effeithiol ac yn ddiogel
 - K35 sut i osgoi anghysur ac anaf posibl i chi eich hun a'ch cleient a'r risgiau o osod cleientiaid yn anghywir
 - K36 y cyflwr y dylech adael yr ardal waith ynddo a pham fod hyn yn bwysig

Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer y driniaeth â chleientiaid

Mae angen i chi wybod a deall:

- K37 sut i ddefnyddio technegau ymgynghori effeithiol wrth gyfathrebu â chleientiaid o wahanol gefndiroedd diwylliannol a chrefyddol, oed, anabledau a rhyw ar gyfer y driniaeth hon
- K38 pwysigrwydd cyfathrebu a thrafod effeithiol
- K39 sut i roi cyngor ac argymhellion effeithiol i gleientiaid
- K40 y sgiliau holi a gwranddo y byddwch eu hangen er mwyn cael gwybodaeth
- K41 pam ei bod yn bwysig cyfeirio cleientiaid â gwrthrybuddion i ofyn am gyngor meddygol
- K42 pwysigrwydd peidio ag enwi gwrthrybuddion penodol wrth annog cleientiaid i ofyn am gyngor meddygol, a'r rhesymau am hynny
- K43 pam ei bod yn bwysig annog cleientiaid i ofyn cwestiynau a rhoi amser iddynt wneud hynny
- K44 pam ei bod yn bwysig esbonio gwrtheffeithiau posibl i'r cleient
- K45 pam ei bod yn bwysig cynnal gwedduster a phreifatrwydd cleientiaid
- K46 sut i gynnal y profion darnau bach perthnasol ar gyfer gwasanaethau cwyro personol, a pham
- K47 sut i baratoi eich hun ar gyfer cynnal y driniaeth
- K48 sut i baratoi'r cleient ar gyfer y driniaeth
- K49 sut i archwilio'r croen a thyfiant y blew yn y man sydd i'w drin yn weledol

- K50 sut i baratoi'r man sydd i'w drin ar gyfer y driniaeth gan gynnwys defnyddio cynhyrchion cyn cwyro a thrimio blew
- K51 pam ei bod yn bwysig i'r cleient lanhau'r man sydd i'w drin ei hun yn union cyn y gwasanaeth cwyro
- K52 pam fod rhaid ymddwyn mewn modd proffesiynol er mwyn osgoi unrhyw gamddechongli posibl ar eich ymddygiad
- K53 sut i baratoi cynlluniau triniaeth

Anatomeg a ffisioleg

Mae angen i chi wybod a deall:

- K54 strwythur y croen (h.y. haenau'r epidermis, y dermis, yr haen isgroenol, ffoligl blewyn, bôn y blewyn, y chwarran sebwm, y cyhyr arrector pili, y chwarran chwys, gwythiennau gwaed a lymff a therfynau nerfau synhwyraidd) a'r gwahaniaethau yn strwythur y croen ar gyfer y gwahanol grwpiau o gleientiaid
- K55 swyddogaeth y croen (h.y. sensitifrwydd, rheoli gwres, amsugno, amddiffyn, ysgarthiad, secretiad a chynhyrchu fitamin D)
- K56 nodweddion croen a'r mathau o groen sydd gan grwpiau cleientiaid ethnig gwahanol
- K57 strwythur y blew
- K58 egwyddorion sylfaenol tyfiant blew (h.y. anagen, catagen, telogen)
- K59 y mathau o dyfiant blew (gan gynnwys terfyn a vellus)
- K60 y derminoleg feddygol gywir am genitalia gwrywaidd
- K61 strwythur y genitalia gwrywaidd

Gwrthrybuddion a gwrtheffeithiau

Mae angen i chi wybod a deall:

- K62 y gwrthrybuddion hynny sy'n atal triniaeth, a pham, ond na fydd angen eu cyfeirio at feddyg (e.e. croen tenau a/neu frau, meinwe craith llai na chwe mis oed, brech gwres, llosg haul, alergeddau hysbys i gynhyrchion a chynhwysion megis rosin sydd i'w gael mewn plasteri glynu a chŵyr)
- K63 y gwrthrybuddion sydd angen eu cyfeirio at feddyg a pham e.e. heintiau wrinol, heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, llau cedor, afiechyd heintus ar y croen, oedema)
- K64 y cyflyrau sy'n cyfyngu ar driniaeth, a pham (e.e. manau geni, blew mewndyfol heintiedig, tagiau croen, clwyf y marchogion allanol, meddyginiaeth, diabetes)
- K65 canlyniadau posibl cynnal cwyro personol ar gleient sydd â gwrthrybuddion
- K66 y rhesymau pam ei bod yn bwysig annog cleientiaid yr amheuir sydd â gwrthrybuddion i ofyn am gyngor meddygol
- K67 pwysigrwydd peidio ag enwi gwrthrybuddion penodol wrth annog cleientiaid i ofyn am gyngor meddygol, a'r rhesymau am hynny
- K68 sut i adnabod a delio â'r gwrtheffeithiau all ddigwydd o ganlyniad i driniaethau cwyro personol (e.e. cleisio, smotiau gwaed, crafiadau, blew

wedi torri, adwaith histamin (alergaidd), cochni eithafol, aildyfiant eithafol a llai)

Cyfarpar a defnyddiau

Mae angen i chi wybod a deall:

- K69 y mathau o gyfarpar a chynhyrchion a ddefnyddir ar gyfer cwyr personol
- K70 sut i gyfateb y cynnyrch cyn rhoi'r cŵyr ymlaen â'r math o gŵyr a ddefnyddir
- K71 cynhwysion a chyfansoddiad cynhyrchion cwyr gan gynnwys cŵyr cynnes, past siwgr a chŵyr poeth
- K72 sut i baratoi cynhyrchion cwyr ar gyfer eu defnyddio
- K73 y mathau o gynnyrch sy'n addas ar gyfer lliniaru cosi poenus ar y croen mewn manau personol
- K74 pam y dylid defnyddio powdrau di-dalc mewn manau personol

Gwybodaeth sy'n benodol i'r driniaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

- K75 sut i gynnal y gwasanaethau cwyr personol yn y cwmpas
- K76 y gwahanol dechnegau a gysylltir â'r gwahanol fathau o gŵyr poeth, cŵyr cynnes a phast siwgr, a'r tymereddau gweithio
- K77 addasrwydd cynhyrchion penodol ar gyfer mathau arbennig o flew
- K78 sut i roi a thynnu cynhyrchion cwyr
- K79 gofynion rhoi'r cynnyrch ymlaen mewn perthynas â chyfeiriad tyfiant y blew
- K80 y rhagofalon sydd angen eu cymryd wrth dynnu blew o gwmpas cyflyrau sy'n cyfyngu ar y driniaeth
- K81 yr adwaith a ddisgwylir ar y croen yn dilyn cwyr
- K82 dulliau eraill o dynnu blew dros dro (e.e. plicio, eillio, hufenau diflewio, diflewio trydanol, edafu, menyg sgraffinio) ac effaith y dulliau hyn ar y broses gwyr
- K83 dulliau datblygedig eraill o gael gwared â blew yn barhaol e.e. triniaethau diflewio neu leihau'r blew yn seiliedig ar olau
- K84 sut y dylech chi a'r cleient gynnal y croen yn ystod y gwasanaeth cwyr personol gan osgoi cyffwrdd anaddas
- K85 pam ei bod yn bwysig cyfyngu eich sgwrs i gyfarwyddiadau yn ystod y gwasanaeth cwyr personol
- K86 sut i ddelio ag amgylchiadau lle mae ymddygiad y cleient yn torri ar statws proffesiynol y driniaeth
- K87 pam ei bod yn bwysig rhoi cyngor ynghylch triniaeth ôl-ofal ar lafar ac yn ysgrifenedig, a'r hyn all ddigwydd os na roddwyd cyngor ynghylch triniaeth neu os na chafodd ei ddilyn
- K88 pam fod angen rhoi canllawiau eglur a phenodol i gleientiaid ynghylch pwysigrwydd hylendid personol yn y toiled ac osgoi gwres a rhwbio

Cyngor ôl-ofal i gleientiaid

SKABTB27W

Darparu gwasanaethau cwyro personol i ddynion

Mae angen i chi wybod a deall:

- K89 gofynion ôl-ofal a chynnal ar gyfer triniaethau cwyro personol a pham fod y rhain yn bwysig (gan gynnwys osgoi gwres a rhwbio, defnyddio cynhyrchion seiliedig ar bersawr a chemegau, gwisgo dillad cyfyngol, osgoi cyffwrdd y man a driniwyd ac am ba hyd y dylid osgoi hyn, osgoi nofio ac ymarfer arall ac am ba hyd y dylid osgoi hyn, hylendid personol yn y toiled)
- K90 y bylchau amser a argymhellir rhwng triniaethau
- K91 cynhyrchion addas i'w defnyddio ar gyfer gofal cartref a sut i'w rhoi ymlaen e.e. trwythau ar ôl cwyro

Cwmpas/Ystod

1. **Technegau ymgynghori yw:**
 - 1.1 holi
 - 1.2 gweledol
 - 1.3 â llaw
 - 1.4 cyfeirio at gofnodion y cleient.

2. **Gwasanaethau cwyro yw:**
 - 2.1 gwaelod y cefn
 - 2.2 y ffolennau
 - 2.3 y man o gwmpas yr anws
 - 2.4 sgrotwm
 - 2.5 pidyn

3. Dylai **camau angenrheidiol** gynnwys:
 - 3.1 annog y cleient i ofyn am gyngor meddygol
 - 3.2 esbonio pam na ellir cynnal y gwasanaeth cwyro
 - 3.3 addasu'r gwasanaeth cwyro
 - 3.4 gwrthod cleient anaddas

4. Mae **paratoi'r cleient** yn cynnwys:
 - 4.1 tynnu'r ategolion a'r dillad angenrheidiol ar gyfer y driniaeth
 - 4.2 gwarchod dillad
 - 4.3 cael y cleient ei hun i lanhau'r man sydd i'w drin
 - 4.4 trimio blew sy'n rhy hir ar gyfer y driniaeth

5. **Cynhyrchion yw:**
 - 5.1 cŵyr poeth
 - 5.2 cŵyr cynnes
 - 5.3 past siwgr

6. **Cynhyrchion i'w rhoi ymlaen cyn cwyro yw:**
 - 6.1 olewau
 - 6.2 powdrau

7. Mae **technegau gwaith** yn cynnwys:
 - 7.1 estyn a thrin y croen yn ystod y broses o roi'r cynnyrch ymlaen a'i dynnu
 - 7.2 pa mor gyflym y tynnir y cynnyrch
 - 7.3 i ba gyfeiriad ac ar ba ongl y tynnir
 - 7.4 cadw llygad ar dymheredd y cynnyrch yn barhaus

8. Mae **cyngor** yn cynnwys:
 - 8.1 osgoi gweithgareddau all achosi gwrtheffeithiau
 - 8.2 anghenion triniaeth yn y dyfodol
 - 8.3 gofal cartref
 - 8.4 hylendid personol.

SKABTB27W

Darparu gwasanaethau cwyr personol i ddynion

Datblygwyd gan SkillsActive

Fersiwn rhif 1

Dyddiad cymeradwyo Tachwedd 2009

Dyddiad adolygu dangosol Tachwedd 2014

Dilysrwydd Cyfredol

Statws Gwreiddiol

Sefydliad cychwynnol Habia

RCU gwreiddiol BT B27

Galwedigaethau perthnasol Mentrau manwerthu a masnachol; Mentrau gwasanaethu; Galwedigaethau gwasanaeth personol; Trin gwallt a gwasanaethau cysylltiedig

Cyfes/Set Therapi Harddwch 2009

Geiriau Allweddol Darparu gwasanaethau cwyr personol i ddynion